OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1813 (Cy.143)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Addysg Feithrin a Chynlluniau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant) (Cymru) (Diwygio) 2005

Wedi'u gwneud - -	*5 Gorffennaf 2005*
Yn dod i rym - -	*31 Gorffennaf 2005*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 118(1)(b) a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**), ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Addysg Feithrin a Chynlluniau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant) (Cymru) (Diwygio) 2005 a deuant i rym ar 31 Gorffennaf 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Diwygio Rheoliadau Addysg (Addysg Feithrin a Chynlluniau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant) (Cymru) 2003

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Addysg Feithrin a Chynlluniau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant) (Cymru) 2003(**3**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 4, ym mharagraff (1)(a) yn lle'r gair "bedwerydd" rhowch y gair "drydydd", ac yn lle'r gair "bedair" yn y paragraff hwnnw ac ym mharagraff (1)(b) rhowch y gair "dair".

(**1**) 1998 p.31. I gael ystyr "prescribed" a "regulations" *gweler* adran 142(1).
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 2003/893 (Cy.113).